


Gwybodaeth am y Gweithlu Gofal Sylfaenol ac Adrodd arno

GPWales (Locum Hub Wales)

Os oes gennych unrhyw swyddi gwag yn eich Practis, defnyddiwch GPWales i'ch helpu i recriwtio. Drwy hysbysebu'r swydd wag ar GPWales, bydd y swydd yn cael ei lanlwytho'n awtomatig i NHS Jobs, gan gynyddu gwelededd y swydd wag. Un o'r manteision gwyh i chi yw nad oes angen cwblhau'r un wybodaeth yn NHS Jobs wrth lanlwytho i GPWales. Mae tîm GPWales wrth law i roi cymorth os bydd ei angen arnoch yn:

support@gpwales.co.uk



Ffocws ar: Defnyddwyr Ychwanegol

Oeddech chi'n gwybod y gallwch chi enwebu aelodau priodol eraill o Dîm eich Practis i gael mynediad at WNWRS? Mae llawer o bractisiau eisoes wedi manteisio ar y cyfle i ofyn am ddefnyddwyr ychwanegol i'r system, fel y gellir cadw cofnodion staff eu Practis yn gyfredol os na fydd Rheolwr y Practis ar gael neu i ffwrdd.

Os ydych yn hawlio Oriau Gallu Ychwanegol gan eich Bwrdd Iechyd, defnyddir yr WNWRS i ddilysu'r hawliadau hyn. Mae'n bosibl y bydd angen i'n tîm gysylltu â'ch Practis ynglŷn â'r dilysiad ac i lawer o bractisiau byddai'n ddefnyddiol sefydlu defnyddiwr ychwanegol er mwyn cael mynediad at yr WNWRS a'i ddefnyddio at y dibenion hyn.

Sylwch fod pob caniatâd i gael mynediad at yr WNWRS yn unigryw i'r unigolyn ac ni ddylid ei rannu; gallwch sefydlu cyfrif ar wahân i sicrhau bod eich practis yn cydymffurfio.

Os oes angen defnyddiwr ychwanegol arnoch ar gyfer y WNWRS neu os hoffech rywfaint o hyfforddiant neu arweiniad, cysylltwch â'r tîm yn uniongyrchol trwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod.

System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu (WNWRS)

Diolch i'r holl Dimau Practis a fewngofnododd i WNWRS yn ystod y chwarter diwethaf - sicrhawyd bod 100% o'r Practisiau wedi'u dilysu ledled Cymru cyn i ni lawrlwytho data mis Medi, sy'n ganlyniad gwyh! Mewngofnodwch i wirio data eich gweithlu cyn y lawrlwythiad nesaf ar ddiwedd mis Rhagfyr i sicrhau bod eich Practis wedi cwblhau'r dilysiad. Bydd ein tîm yn cysylltu â'r Practisiau hynny y mae angen iddynt gwblhau'r dasg hon o hyd.

Trwy fewngofnodi'n rheolaidd i WNWRS a gwirio bod data eich Practis yn gywir, mae ansawdd yr wybodaeth yn y modiwl adrodd yn gwella ac mae'n amhrisiadwy at ddibenion cynllunio'r gweithlu. Fel rhan o'r Cytundeb Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS), dylai Practisiau fewngofnodi i WNWRS yn fisol a gwirio bod data'r gweithlu yn gywir. Mae practisiau yn ymgorffori hyn yn eu prosesau diwedd mis ac yn darganfod ei bod yn dasg gyflym a hawdd i'w chwblhau. Fel arall, gallwch ddiweddarau data am eich gweithlu wrth i chi fynd yn eich blaen - mater i chi fel Practis unigol yn llwyr yw gwneud yr hyn sydd orau i chi, cyn belled â'ch bod yn cwblhau gwiriad misol.

Rydym bob amser yn edrych ar gyfleoedd i wella ymarferoldeb yr WNWRS a'n gwasanaeth i chi. Os oes gennych unrhyw adborth neu awgrymiadau, cysylltwch â ni ar nwssp.primarycarewnwrs@wales.nhs.uk.

Rhifau Cofrestru Nyrsys

Os oes gennych Nyrsys yn gweithio yn eich Practis, gwiriwch eich bod wedi cofnodi eu Rhif Cofrestru yn eu cofnod staff. Mae hyn yn bwysig i ddilysu'r data a dylid ei gwblhau ar gyfer yr holl staff Nyrsio sy'n gweithio yn eich Practis, hyd yn oed os ydynt yn nyrsys Banc neu ar contract Dim oriau.

Gan bawb yn y tîm, Cyfarchion y Tymor i chi i gyd a diolch i chi am eich holl gefnogaeth a chymorth trwy gydol y flwyddyn – rydym wedi bod wrth ein bodd yn ymgysylltu â chi i gyd. Rydym yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda ac lach i chi!

